Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Twts Tywi**

**Ysgol Gynradd Llandeilo**
**20 Stryd Rhosmaen**
**Llandeilo**
**SA19 6LU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/11/2023

# Clwb Twts Tywi

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | TWTS TYWI LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 36 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru oedd hwn. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus oherwydd bod eu dymuniadau yn cael eu hystyried. Maent yn teimlo'n hapus ac yn cael cyfleoedd da ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Mae'r plant yn annibynnol ac yn gwneud pethau drostynt eu hunain yn hyderus.

Mae'r staff yn deall polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac yn eu gweithredu'n gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a llesiant y plant. Mae'r staff yn rheol risgiau ac yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant. Maent yn fodelau rôl da , maent yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn meithrin hyder a hunan-barch y plant sy'n cael gofal ganddynt.

Mae'r bobl sy'n gyfrifol am redeg y lleoliad yn rhoi mesurau effeithiol ar waith ac yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch y plant. Maent yn cynnal asesiadau risg cadarn iawn ac mae gwiriadau cynnal a chadw ar waith. Maent yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau ac maent yn sicrhau y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd.

Mae'r bobl sy'n gyfrifol am redeg y lleoliad yn anelu at sicrhau bod systemau hynod effeithiol ar waith. Maent yn cydymffurfio â rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae eu polisïau a'u gweithdrefnau wedi ymsefydlu'n dda ac mae llesiant a datblygiad proffesiynol y staff yn hynod effeithiol. Mae'r broses hunanwerthuso yn rhagorol a chaiff gwelliannau eu hadolygu a'u rhoi ar waith yn gyson. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn rhagorol.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus, yn gallu ymlacio ac yn hyderus yn y lleoliad. Maent yn setlo'n gyflym wrth gyrraedd ac maent yn gyfarwydd â threfn y lleoliad o ddydd i ddydd. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac maent yn hyderus wrth fynd atynt pan fo angen help neu sicrwydd arnynt neu pan fyddant am gael sgwrs am weithgareddau gyda'u teulu. Mae'r plant yn teimlo bod eu hanghenion a'u hemosiynau yn cael eu cydnabod. Er enghraifft, yn ystod amser cinio roedd rhai o'r plant am eistedd ar wahân i'r plant eraill, a rhoddwyd sicrwydd iddynt y gallent ddod i eistedd wrth y bwrdd pryd bynnag y byddent am wneud hynny.

Mae gan y plant yn y lleoliad lais cryf ac maent yn cael cyfleoedd i weithio â'r staff i gynllunio ar gyfer y gweithgareddau wythnosol gyda'i gilydd. Er enghraifft, yn ystod y gwaith cynllunio hanner tymor, dewisodd y plant ddylunio a cherfio pwmpenni. Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn dda. Gwnaethant ddweud yn hyderus wrth yr arolygwyr pe byddai unrhyw beth yn eu poeni, y byddent yn gallu siarad ag aelodau o'r staff a fyddai'n datrys unrhyw faterion. Mae'r plant yn fwy na pharod i fynd at y staff gan eu bod yn gwybod y byddant yn gwrando arnynt. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd gwneud breichled yn yr awyr agored, roedd y plant yn hyderus wrth ofyn i aelodau o'r staff am help â'u dyluniadau ac wrth wneud clymau.

Mae'r plant yn rhyngweithio â'r staff mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau gan y staff. Er enghraifft, pan ofynnwyd iddynt sefyll mewn rhes i fynd allan, helpodd rhai o'r plant hŷn i baratoi'r cyfarpar. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion a'r staff. Maent yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn i'r staff am bethau. Er enghraifft, wrth gwblhau'r gweithgaredd cerfio pwmpen, gofynnodd y plant am gymorth i dorri top y bwmpen. Hefyd, gofynnodd y plant i'r staff am gymorth i agor eu bwydydd yn ystod amser byrbryd.

Mae'r plant yn symud yn hapus rhwng gweithgareddau ac roedd rhai o'r plant yn llwyddo i ymgysylltu â'r gweithgareddau am gyfnod sylweddol o amser. Maent yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd gan ddibynnu ar eu hoedran a'u cam datblygu. Mae'r plant yn gyffrous am yr amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael iddynt. Maent yn siarad am y gweithgareddau y gwnaethant eu mwynhau fwyaf, gyda llawer ohonynt yn enwi'r castell bownsio. Mae amrywiaeth o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored i'r plant eu mwynhau.

Mae digon o gyfleoedd i'r plant feithrin eu hannibyniaeth gan fod amrywiaeth o weithgareddau ar gael iddynt. Maent yn bwrw ati'n annibynnol i helpu eu hunain i'w cotiau cyn mynd allan i'r awyr agored. Mae'r plant yn datblygu sgiliau echddygol manwl drwy wneud breichledau â gleiniau, ac yn datblygu sgiliau echddygol bras effeithiol drwy redeg, cicio peli a dringo. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd gan eu bod yn golchi eu dwylo yn annibynnol cyn cael bwyd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol y plant. Mae'r staff yn rheoli risgiau'n barhaus ac yn effeithiol. Er enghraifft, cyn gweithgareddau, mae'r staff a'r plant yn asesu risgiau wrth gynnal gweithgaredd cerfio pwmpenni a hefyd yn asesu'r risgiau a'r manteision er mwyn datblygu sgiliau'r plant ymhellach a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt. Mae'r plant yn rhoi arferion hylendid ar waith drwy annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd a thrwy sicrhau bod pob ardal yn lân cyn amser bwyd. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu, ac mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau i'w dilyn pe byddai pryder diogelu neu bryder am lesiant plentyn. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac maent yn ymwybodol o'u hanghenion unigol. Maent yn darparu bwydlen iach i'r plant sy'n mynychu'r clwb ar ôl ysgol, ac mae'r plant sy'n mynychu'r clwb gwyliau yn dod â phecyn cinio gyda nhw sy'n cael ei gadw yn yr oergell. Mae dŵr ar gael i'r plant drwy gydol y dydd. Mae'r staff yn gyfarwydd ag alergeddau ac anoddefiadau'r plant.

Mae rhyngweithio'r staff â'r plant yn gadarnhaol. Maent yn ymateb i geisiadau a chwestiynau'r plant ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd gynnes, feddylgar a pharchus. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn sensitif tuag at anghenion a phrofiadau'r plant. Er enghraifft, roedd y plant ifanc newydd a oedd yn mynychu'r lleoliad yn cael cymorth parhaus yn eu hamgylchedd newydd ac roedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau'r plant. Mae'r staff yn fodelau rôl da ac yn rhoi arferion cadarn ar waith i feithrin dealltwriaeth y plant o ymddygiadau da ac ymddygiadau cyson. Maent yn sicrhau bod y plant yn ymwybodol o'r rheolau a'u bod yn gwybod beth y mae angen iddynt ei wneud i gadw'n ddiogel, gan sicrhau bod y plant yn asesu'r risgiau wrth iddynt chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Mae ethos cryf a chydberthynas dda rhwng y staff a'r plant, gan gynnig amgylchedd hapus a chyfforddus lle caiff y plant ofal gan staff cyson a chyfarwydd.

Mae'r staff yn wybodus ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion y plant a'r hyn sy'n effeithio ar eu profiadau chwarae. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o hawliau plant ac ac maent yn eu hyrwyddo'n effeithiol. Wrth gefnogi'r plant drwy chwarae, maent yn annog y plant i chwarae â'r adnoddau o'u dewis ac i ddatblygu eu syniadau a'u chwilfrydedd. Er enghraifft, roedd y staff yn annog y plant i edrych ar y pryfed wrth chwarae yn y gegin fwd; gwnaethant wella eu sgiliau datrys problemau wrth chwarae gyda'r darnau rhydd, wrth adeiladu ac wrth ddefnyddio dŵr wrth chwarae.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, a chaiff y plant eu goruchwylio'n dda iawn. Er enghraifft, mae gweithdrefnau cadarn ar waith lle mae'r staff yn cerdded gyda'r plant i'r toiledau a'r ardaloedd awyr agored, gan sicrhau bod y cymarebau staff i blant bob amser yn cael eu bodloni. Mae'r staff yn asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r plant a phob ardal dan do ac ardal awyr agored bob dydd. Caiff ymarferion tân a gwiriadau cynnal a chadw eu cynnal mewn modd amserol. Mae pob ymwelydd yn llofnodi wrth gyrraedd ac wrth adael.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd sy'n addas i'r plant. Yn yr ardal dan do, mae gan y plant gadeiriau, byrddau a dodrefn o faint addas. Mae cyfarpar ac adnoddau ar gael yn hwylus i'r plant, a gallant eu dewis yn annibynnol. Mae ardal awyr agored fawr sy'n rhan o iard chwarae'r ysgol, sy'n cynnwys cyfleoedd i ddringo, archwilio, i fod yn greadigol ac i ymgymryd â gweithgareddau chwarae corfforol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da ar gael iddynt. Maent yn sicrhau bod gan y plant ddewis diddorol o adnoddau, sy'n cynnwys gemau bwrdd a gemau mawr, adnoddau creadigol, adnoddau adeiladu, batiau a pheli, cegin chwarae rôl ac adnoddau chwarae eraill yn yr ardaloedd dan do. Yn yr ardal awyr agored, mae adnoddau fel cyfarpar chwaraeon, darnau rhydd, ardal naturiol sy'n cynnwys cegin fwd, cyfarpar chwarae creadigol a chyfarpar dringo. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi prynu mwy o adnoddau i'r plant hŷn yn seiliedig ar syniadau a dewisiadau'r plant eleni. Fodd bynnag, nid oes llawer o ardaloedd i'r plant iau orffwys a phrin yw'r teganau a'r adnoddau amlddiwylliannol sydd ar gael iddynt. Caiff yr holl deganau a gemau eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da a chânt eu storio ar lefel sy'n addas ar gyfer taldra'r plant. Maent yn addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant sy'n mynychu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gref ac arloesol ar gyfer y lleoliad y maent yn ei rhannu ag eraill. Mae ganddynt wybodaeth ragorol ac maent yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn rhagori ar ofynion y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal adolygiadau rheolaidd o ddatganiad o ddiben manwl sy'n adlewyrchu'r lleoliad yn dda iawn. Maent yn adolygu ac yn diweddaru eu polisïau a'u gweithdrefnau, a chânt eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae'r holl gofnodion gofynnol gan gynnwys presenoldeb y staff, y plant a chaniatadau ar gyfer y plant ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn paratoi dogfen llawn gwybodaeth sy'n adlewyrchu sut y caiff y lleoliad ei redeg. Maent yn adolygu barn a safbwyntiau'r rhieni, y plant a'r staff bob tymor ac felly'n anelu'n barhaus at nodi sut y gellir gwella'r lleoliad er mwyn sicrhau llesiant y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi'n dda iawn ac mae systemau cyfathrebu rhagorol ar waith. Maent yn sicrhau bod yr holl wiriadau addasrwydd, a'r gwiriadau datgelu a gwahardd ar waith ar gyfer y staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn meddu ar gymwysterau addas a chaiff hyfforddiant gorfodol y staff ei ddiweddaru mewn modd amserol. Maent yn sicrhau bod y cymarebau rhwng y staff a'r plant yn cael eu bodloni, ac mae trefniadau wrth gefn effeithiol ar waith ar gyfer adegau pan fydd staff yn absennol. Mae ethos gwaith cadarnhaol yn y lleoliad. Mae cydberthynas agos rhwng y staff â'i gilydd a rhwng y staff a'r rhai sy'n rhedeg y lleoliad. Maent yn fodlon ar eu datblygiad proffesiynol parhaus a'r cyfleoedd hyfforddiant. Caiff sesiynau goruchwylio ac arfarniadau hynod effeithiol eu cynnal.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y partneriaethau yn rhagorol. Mae ganddynt bartneriaethau rhagorol â'r ysgolion sy'n defnyddio'r cyfleuster hwn, ac maent yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd chwaraeon da ac yn cael eu cynnwys mewn ymweliadau â'r parciau lleol yn y gymuned. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bartneriaethau agos â'r rhieni, sy'n cael cymorth da i sicrhau bod llesiant eu plant yn cael blaenoriaeth. Maent yn gwahodd rhieni newydd i setlo eu plant ac yn anfon lluniau a diweddariadau rheolaidd atynt drwy feddalwedd/ ap gwe-ffurflen. Dywedodd y rhieni wrth AGC eu bod yn hapus iawn â'r staff cyfarwydd a charedig sy'n gofalu am eu plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod ardaloedd i'r plant orffwys a bod teganau ac adnoddau ar gael sy'n datblygu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau ac amrywiaeth |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/01/2024